

## Bruce Griffiths yn **CRWYDRO CAER A CHYRION ERAILL**

### *Cyn codi cŵn Caer*

**S**ut yn y byd na wyddwn am y lle o'r blaen? Mi fŵm yn mynd ar fy hald i Gaer ers hanner can mlynedd; cerddais ei murio droeon, bŵm yn theatr y Gateways, prynais lyfrau'n gyson yn siop Stothart, yn siop yr SPCK a sawl siop arall; bŵm yn hamdden ar lan afon Dyfrdwy ac ar daith medna cwch i fyni'r afon; deuthum i Gaer yn fy nghwch fy hun ar hyd y gamlas. Ac eto'r llynedd yn unig y deuthum o hyd i Barc Grosvenor nad yw ond gwaith rhyw ddeng munud o gerdded o'r Stryd Fawr ar y ffordd i lan afon Dyfrdwy. Parc helaeth braf yw, a rhodfeydd rhwng gwelwau o flodau yn arwain at lyn llawn elyrch a hwyaid, a phont, a thrên bach hyd yn oed, heb sôn am ambell adfail hynafol.

### **O'r llwch i'r llwch**

Ar y ffordd yno, fe ewch heibio Canolfan Croeso'r Ymwelwyr a chyferbyn â honno saif Eglwys Ioan Fedyddiwr. Wrth ei hystlys gwelir adfail Capel y De-Orllewin. Ewch i mewn, ac edrych i fyni: yn uchel yn y pared fe welwch arch dderw o'r oesoedd canol, a ddatgladdwyd yn ddiweddarach a'i gosod yno, ac arni'r geiriau: 'Dust to Dust'. Islaw'r eglwys saif tŷ preifat, canoloesol, o'r enw *Anchorite Cell*, cell meudwy gynt yn ôl y traddodiad. Nepell oddi wrtho y safai Capel Iago gynt, y mae chwedl ddiddorol yn ei gylch. Os oes un peth a gofiwn gan hanes Lloegr, yna cwmp Harold Frenin ym mrwydr Hastings yn 1066, a saeth yn ei lygad, yw hwnnw. Ond na! Coel gwlad oedd na fuasai farw. Ym muchedd Harold, y *Vita Haroldi*, ceir ei hanes yn ffoi dros y môr, yn dod yn ei ôl i fyw'n feudwy yn Dover, yn crwydro trwy ororau Cymru ac yn diweddu ei rawd yn feudwy yng Nghapel Iago yng Nghaer, gan ddatgelu pwy oedd ar ei wely angau. Credai rhai Saeson iddo oroesi hyd deyrnasiad Harri'r Ail, a olygasai iddo fod dros ei gant a hanner canmlwydd oed! Cafwyd y goel hon ar lafar gwlad mor ddiweddar â'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Disgwyliwn y cawn ragor ar y pen hwn yn y llyfryn diddan hwnnw, *The Undergrowth of History* gan Robert Birley (*The Historical Association*, 1955). Yn hwn eir ar ôl chwedlau megis Cnut (Caniwt) a'r tonnau, Alffred yn llosgi'r teisennau, Syr Walter Raleigh yn chwarae bowls ac yn y blaen. Ond na: dim sôn am Harold yn goresi.

### **Coeliwch neu beidio!**

Fel y mae hi ryfeddaf, ffynonellau Cymreig a Chymraeg sy'n cadarnhau'r traddodiad. Pan ddaeth Gerallt Gymro i Gaer ym 1188, tystiodd i goel y dinaswyr yn ei *Daith Trwy Gymru*, Pennod XI (gw. cyfieithiad yr Athro Thomas Jones, GPC, Caerdydd 1938); ac ym mrut *Brenhinedd y Saeson* (gol. Thomas Jones, GPC 1971) cofnodir ar ôl Calan Mai 1332 'y kad korff Haralt vrenin Lloegr yn eglwys Ieuan yng Nghaerlleon, wedi i gladdu

yno er ys mwy no dau kant o vlynyddoedd kynn no hynny. Ac y kad i gorff a'i goron a'i ddillad a'i hosanau lleidr a'i ysbardunau euraid



*Arch Dderw Y Brenin Harold?*

kynn gyfanned ac yn gystal i haroglau â'r dydd y kladdesid ef.' (Diweddarais fymryn ar yr orgraff.). Ceir tystiolaeth i Ealdgyth, gweddwr Harold, ymddol i Gaer, dan nawdd ei brodyr Edwin Iarll Mersia a Morcar Iarll y Gogledd. Felly, pwy a wŷr na fu Harold yno? Tybed ai arch Harold yw'r un y soniais amdani ac a welir eto heddiw? Go bryn, sefallai: ond ni all neb brofi nad dyna ydyw ychwaith.

### **Gwyrthiau eraill Caer**

Cyn gadael Caer a'i rhyfeddodau: yn 2008 (Mehefin 28 - Gorffennaf 19) llwyfennir dramâu miragl y ddinas yn yr awyr agored, ger y gadeirlan. Dramâu canoloesol ydynt, seiliedig ar y Beibl, yn olrhain hanes dynol ryw o ardd Eden hyd Ddydd y Farn. Ym mis Mehefin 2003 treuliasom brynawn a chyda'r nos yn gwyllo'r cyfan. Buont yn werth eu gweld, gyda chast o dros ddau gant o ddinaswyr. Yn cyfystal â'r rhannau dwys a cherddorol. Yn cyfystal â'r rhannau dwys a difrif - y Croeshoeliad a'r Atgyfodiad, a Christ yn anrheithio Uffern, cafwyd rhai episodau digrif e.e. Noa a'i gecren o wraig yn yr Arch, ac, ar enedigaeth Crist, y bugeiliaid - Cymry o fryniau Clwyd - yn dod i addoli'r Baban. Bachwch y cyfle i'w gweld. Ymholer â'r Swyddfa Docynnau, ffôn 01244 304 618 neu ewch at [www.chestermysteryplays.com](http://www.chestermysteryplays.com). neu ysgrifenner at Chester Mystery Plays Ltd, Chester Race Company, The Racecourse, Caer / Chester CH1 2LY.

### **At chwilotwyr y We**

Mae [www.everyclick.com](http://www.everyclick.com) yn beiriant chwilio'r We sy'n rhoi hanner ei dderbyniadau i elusennau, gan rannu'r arian yn ôl y defnydd

a wneir ar y peiriant gan gefnogwyr pob elusen. O gofrestru, cewch ddewis pa elusen i'w chefnogi a threfnu defnyddio tudalen Everyclick fel eich Hafan. Wedyn, bob tro y defnyddiwch Everyclick i chwilio'r We, byddwch yn codi arian at eich hoff elusen heb gost i'r elusen nac i chwithau. Er enghraifft, cefais gan Ann gofrestru i gyfrannu i Gymdeithas Rheilffordd Ffestiniog., a dylai pob 'Stiniogyn o chwilotwr ystyried cefnogi hon neu un arall o achosion da'r cylch.

### **Y Lleufer Newydd**

Dyna enw cylchgrawn (blynyddol, hyd y gwelaf) Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (Rhanbarth Gogledd Cymru) y deuthum ar draws rhifyn ohono (Rhif 3, 1993) wrth durio yn y grogloff acw. Synnais mor llawn oedd o bethau da - cerddi ac ysgrifau graenus gan rai o aelodau dosbarthiadau'r Gymdeithas, rhai ohonynt yn ddysgwyr. Ceir atgofion am Bedwyr Lewis Jones gan Richard Jones, Llanfechell, am Gynan gan Huw Williams, am D.Tecwyn Lloyd gan Ifan H.Pritchard, ac am Eucros Bowen gan Ifor Owen. Yr oedd ysgrif Iwan Roberts Rhuthun 'Ffyngoedd - Hud y Madarch' o ddiddordeb neilltuol i mi. Cyfoeth yn wir, dan olygyddiaeth Ifor Baines. Ni chofiaf weld y *Lleufer Newydd* yn ddiweddar, gobeithio y deil i gyrraedd yr un safon uchel. Ynddo ceir un eitem fechan a fydd yn her ichi:

### **Emyn nas gwelir yn y Llyfrau Emynau**

*Haws a fai i'r deryn egwan  
Gario'r Andes yn ei big  
Neu mil hawsach i'r pysgodyn  
Lyncu Môr y De mewn dig.  
Byddai'n hawsach i'r morgrugyn  
Wthio'r Alps o'i flaen i'r môr  
Nag i ddyfais dyn na diafol  
Ddymchwel arfaeth fawr yr Iôr.  
Ni wyddys pwy a'i cant.*

R.Wallis Evans, Bangor.

Er bod angen mymryn o gaboli ar yr arddull, mae'n frwd ac yn lliwgar. Mae'n rhagori ar filoedd o emynau dieneiniad a dilw y rhygnwn drwyddynt aml Sul.

Yn anffodus ni ddywedodd R.W.Evans ai oddi ar lafar y cododd hyn, ynteu ei weld ar ddalen weili Beibl neu hen lyfr emynau. A wŷr un ohonoch amgen?

### **Hen ŷd y wlad - Cymeriadau T. Gwynn Jones**

Fe'i gwelsoch fwy nag unwaith, mae'n siŵr gennyf i, mewn siopau llyfrau ail-law - set o gyfrolau o waith T.Gwynn Jones, a argraffwyd yn gymen a'u rhwymo'n gain gan Hughes a'i Fab yn 1933. Bŵm yn pori yn ei gyfrol *Cymeriadau*, casgliad o bortreadau o bobl a oedd yn adnabyddus bryd hynny. Gorchwyl diddan, ond trist braidd. Fe gofir tra pery'r iaith am John Morris Jones, wrth gwr, ac erys enw Edward Morwyl yn annwyl gan rai o achos ei gymorth i'w frawd J. Bodvan Anwyl yn golygu *Geiriadur Spurrell*. Fe gofia ambell un y bu Dic Tryfan yn rhagflaenydd i Kate Roberts. Fe gofia'r athronwyr am yr Athro Henry Jones. Ond, Ichabod, Ichabod: pwy bellach a gofia am Thomas Francis Roberts, am David Williams, am Alafon, ac am Richard Ellis? Cofiwch, ni ddywedaf nad yw'r ysgrifau'n werth eu darllen o gwbl.